

# Canllaw i Wirfoddoli



canolfan**byd**gwaith

Adran Gwaith a Phensiynau

## Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 2	
Beth yw Gwirfoddoli?	Tudalen 3	
Pam Gwirfoddoli?	Tudalen 3	
Beth mae Cyflogwyr yn ei Feddwl?	Tudalen 3	
Herio'r Mythau	Tudalen 4	
Canllawiau DWP ar Wirfoddoli a Hawlio Budd-daliadau	Tudalen 5 - 6	
Yr Hyn y mae Gwirfoddolwyr yn ei Ddweud	Tudalen 7	1
Eich Camau Nesaf	Tudalen 8	
Cyfleoedd Gwirfoddoli a Dolenni Defnyddiol	Tudalen 9 - 12	

## Cyflwyniad i 'Canllaw i Wirfoddoli'

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chynllunio mewn partneriaeth â Gwirfoddoli Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith, rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Prif nod y Canllaw yw helpu i roi gwybod i bobl sy'n hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth am y fanteision i ddod yn wirfoddolwr. Bydd yn helpu drwy ddarparu gwybodaeth ymarferol am wirfoddoli, gan gynnwys, Canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau a gwefannau defnyddiol. Gall gwirfoddoli fod yn garreg gamu defnyddiol yn ôl i gyflogaeth a datblygu i fod yn alwedigaeth gydol oes.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ar ôl darllen y Canllaw hwn, cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol neu'r Ganolfan Byd Gwaith leol.



## Beth yw Gwirfoddoli?

Mae hwn pan fyddwch yn dewis rhoi eich amser ac egni er budd pobl eraill heb gael eich talu ar ei gyfer. Gallech wirfoddoli gydag unrhyw fath o sefydliad, yn cynnwys:

- Elusen, sefydliad gwirfoddol neu grŵp cymunedol;
- Sefydliad sector cyhoeddus, fel eich awdurdod lleol neu ysbyty;
- Menter gymdeithasol sy'n cefnogi eich cymuned leol, neu
- Busnes lleol.

Nid yw gwirfoddoli'n golygu:

- Helpu allan aelod o'r teulu;
- Cael arian ar wahân i'ch treuliau, neu
- Bod dan gcontract i wneud hynny (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw 'gytundeb gwirfoddolwr' a allai fod gennych)

## Pam Gwirfoddoli?

- Dysgu sgiliau newydd a fydd yn gwella eich CV ymhellach;
- Ymarfer y sgiliau sydd gennych yn barod;
- Dod yn fwy hyderus;
- Gwneud ffrindiau newydd a chysylltu â'ch cymuned leol;
- Casglu syniadau newydd gan bobl eraill;
- Dangos i gyflogwyr eich bod yn ymroddedig ac yn ddibynadwy;
- Cwrdd â phobl a all eich helpu i ddod o hyd i waith â thâl (rhwydweithio);
- Darparu pethau i siarad amdano mewn cyfweiliad am swydd;
- Cael tystlythyrau; a chael hwyl yn gwneud rhywbeth newydd!

## Beth mae cyflogwyr yn ei feddwl?

Dywedodd **70%** o gyflogwyr y byddent yn cyflogi rhywun sydd â phrofiad o wirfoddoli dros rywun nad yw erioed wedi gwirfoddoli o'r blaen. Mae **94%** o gyflogwyr yn credu y gall gwirfoddoli ychwanegu at sgiliau.

## Rhai dyfyniadau gan gyflogwyr:

Dechreuodd Craig ei fusnes ei hun bum mlynedd yn ôl yn gwerthu llyfrau plant yn seiliedig ar hanes yr Alban. Dywed, "Mae gwirfoddoli ar CV darpar cyflogai yn rhywbeth rwyf yn chwilio amdano ac yn ei gwerthfawrogi'n fawr. Rwyf bob amser wedi gwirfoddoli. Rwyf ar hyn o bryd yn Swyddog a Gomisiynydd yn y Cadetiaid Awyr y Llu Awyr Brenhinol ac wedi cymryd rhan ers i mi fod yn 13 mlwydd oed."

### Craig Johnstone, Sefydlwr a CEO, Giglets Ltd.

Mae tynnu sylw at wirfoddoli yn dangos unigolion fel rhai cyflawn a diddordeb mewn pobl eraill. Mae ymgeiswyr di-waith sy'n gwirfoddoli yn arddangos dymuniad i gymryd rhan a helpu pobl. Mae'r rhain i gyd yn sgiliau gwerthfawr a throsglwyddadwy.

**Rona Cargill, Cwmni Cyfreithiol Harper Macleod Law**, dyfynnwyd y ddau o <http://www.myworldofwork.co.uk/content/what-employers-think-about-volunteering>

Nid yw cofnod troseddol o reidrwydd yn eich rhwystro rhag gwirfoddoli.

Gwneir y rhan fwyaf o wirfoddoli gyda sefydliadau y mae eu gweithgareddau yn ddi-elw, ond gall hefyd gael ei wneud o fewn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr cymwys fel arfer am ddim.

# Herio'r Mythau!

Gall hawlwr wirfoddoli am gynifer o oriau ag y dymunant, ar yr amod y gallant brofi eu bod yn mynd ati i chwilio am ac ar gael i weithio.

Bron ym mhob achos nid yw budd-daliadau'r wladwriaeth yn cael eu heffeithio gan wirfoddoli ond rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw waith gwirfoddol a wnewch.

Nid yw pob gwirfoddoli mewn siopau elusen. Mae gwirfoddoli yn cwmpasu sbectrwm eang o rolau.

## **Canllawiau DWP ar wirfoddoli a hawlio budd-daliadau**

**Os ydych yn cael budd-daliadau siaradwch â'ch Anogwr Gwaith neu gyflogai arall y Ganolfan Byd Gwaith cyn dechrau.**

Gwyddom y gall gwirfoddoli roi llawer gwell siawns o ddod o hyd i waith â thâl i chi. Felly, gallwch wirfoddoli cymaint o oriau ag y dymunwch tra eich bod yn cael budd-daliadau cyn belled â'ch bod yn cadw at yr amodau ar gyfer eu cael.

### **Os ydych yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith/Credyd Cynhwysol:**

- Bydd angen i chi fod wrthi'n chwilio am waith â thâl yn unol â'ch Cytundeb Ceisio Gwaith neu'ch Ymrwymiad Hawlydd;
- Bydd angen i chi fod ar gael i weithio yn unol â'ch Cytundebau Ceisio Gwaith neu'ch Ymrwymiad Hawlydd;
- Rhaid i chi fod ar gael i fynychu cyfweiliad o fewn 48 awr o rybudd; ac
- Efallai y cewch ad-daliad o'ch treuliau (fel ar gyfer costau teithio); ond dim taliad arall ar gyfer gwirfoddoli. Bydd angen i'r Ganolfan Gwaith cael gwybod am dreuliau a dderbyniwyd.

### **Os ydych yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm a Budd-dal Analluogrwydd:**

- Efallai y cewch ad-daliad o'ch treuliau (fel ar gyfer costau teithio); ond dim taliad arall ar gyfer gwirfoddoli. Bydd angen i'r Ganolfan Gwaith cael gwybod am dreuliau a dderbyniwyd; a
- Bydd angen i chi fod ar gael i fynychu Cyfweiliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith pan fyddwn yn gofyn i chi.

### **Os ydych yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Gweini**

- Ni fydd gwirfoddoli yn y DU yn effeithio ar eich budd-daliadau;
- Ni fydd gwirfoddoli dramor am lai na 6 mis, yn effeithio ar eich budd-daliadau; ac
- Os hoffech wirfoddoli dramor, rhowch wybod i'ch gwasanaeth budd-dal perthnasol.

### **Lwfans Gofalwr**

- Gallwch gael Lwfans Gofalwr os ydych yn gwirfoddoli yn y DU, ar yr amod bod gennych gyfrifoldebau gofalu am berson anabl am o leiaf 35 awr yr wythnos ac maent yn derbyn y budd-dal priodol; a
- Os byddwch yn gwirfoddoli dramor gallai effeithio ar eich Lwfans Gofalwr.

## Credydau Yswiriant Gwladol

- Nid yw gwirfoddoli fel arfer yn effeithio ar eich Credydau Yswiriant Gwladol ar yr amod y byddwch yn cydymffurfio â rheolau eich budd-dal priodol.

## Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor

- Os cewch Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw wirfoddoli a wnewch ac unrhyw dreuliau a gewch.

## Credydau Treth Gwaith

- Rhaid i chi fod mewn gwaith â thâl am o leiaf isafswm penodol o oriau yr wythnos i gael Credydau Treth Gwaith; nid yw'r oriau yr ydych yn gwirfoddoli yn cyfrif tuag at eich oriau gwaith wythnosol.

## Credydau Treth Plant

- Ni fydd bod yn wirfoddolwr yn newid swm y credyd treth plant a gewch.

**Os ydych yn ansic ynghylch sut y bydd gwirfoddoli yn effeithio ar eich budd-daliadau, cysylltwch â'ch Canolfan Gwaith leol am gyngor.**

## Gwaith Di-dâl

- Ni chaniateir i chi wneud gwaith di-dâl: dyma le rydych yn perfformio swydd y byddai rhywun fel arfer yn cael ei dalu ar gyfer ac yn wahanol i wirfoddoli.

## Gwybodaeth Bellach

Os oes angen rhagor o wybodaeth am y rheolau ynglŷn â gwirfoddoli a budd-daliadau, gweler:

[www.gov.uk/government/publications/volunteering-while-getting-benefits-leaflet](http://www.gov.uk/government/publications/volunteering-while-getting-benefits-leaflet)

Neu gofynnwch yn eich Canolfan Gwaith leol.

**Os ydych yn ansic o'r gwahaniaeth rhwng gwirfoddoli a gwaith di-dâl, cysylltwch â'ch Canolfan Gwaith leol am gyngor.**



Mae manteision gwirfoddoli yn ddiderfyn. Mae'n ffordd wych o gwrdd â phobl newydd ac o'r un anian, mae'n gwella gwaith tîm ac mae cyfleoedd i ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau - mae'n amlwg bod hyn yn edrych yn dda iawn ar CV. Mae hefyd yn eich galluogi i roi rhywbeth yn ôl. Mae'n ffordd wych o fynd i'r arfer o wneud gwaith diwrnod llawn ac yn garreg sarn mawr rhwng diweithdra a chyflogaeth. Mae llawer o bobl yn dal i wirfoddoli ar ôl iddynt gael swydd, gan ei fod wir yn brofiad boddhaol, ac yn llawer o hwyl!

Mae gwirfoddoli yn un o'r pethau gorau i mi ei wneud erioed!

Mae wedi bod yn hwb hyder go iawn ac wedi fy helpu i fondio â phobl newydd.

Roedd yn ffordd wych o fagu nerth gyda phobl neis a gweithgareddau yn yr awyr iach.

## Yr hyn y mae gwirfoddolwyr yn ei ddweud!

Roedd yn fantais fawr i ennill sgiliau ymarferol.

Drwy wirfoddoli rwyf yn cael y cyfle i ehangu fy sgiliau, ac yn defnyddio'r wybodaeth a ddysgais yn fy mywyd gwaith er budd pobl eraill. Mae'n wir yn werth chweil.

Roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth gwahanol tu allan i'r gwaith, rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned a chwrdd â ffrindiau newydd - pob un ohonynt rwyf wedi ei gyflawni.

Rwyf wedi cael profiad o weithio mewn siop a sut mae rhedeg siop, gweithio gyda gwirfoddolwyr eraill a chwrdd â gwahanol fathau o bobl bob wythnos.

Profiad gwych. Rwyf wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau i ehangu a datblygu sgiliau newydd.



## Eich Camau Nesaf

### Ystyried Gwirfoddoli?

Gallwch fynd am sgwrs anffurfiol gyda'ch Canolfan Wirfoddoli leol (gweler Tudalen 10);

neu

Gallwch drefnu apwyntiad gyda'ch Anogwr Gwaith i drafod eich opsiynau;

neu

Os ydych yn gwybod lle rydych eisiau gwirfoddoli gallwch gysylltu â'r sefydliad yn uniongyrchol;

neu

Gallwch chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli drwy:

- Edrych ar y Rhyngrwyd;
- Gofyn i'r teulu a ffrindiau; a
- Gwirio'r papurau lleol.

**Cofiwch, os cewch fudd-daliadau, dylech siarad â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn i chi ddechrau gwirfoddoli.**

### Yn Barod i Wirfoddoli?

Mae'n hanfodol os cewch fudd-daliadau ac rydych yn bwriadu gwirfoddoli eich bod yn rhoi gwybod i'ch Canolfan Byd Gwaith leol. **Rhaid gwneud hyn cyn i chi ddechrau gwirfoddoli** er mwyn sicrhau nad yw'r gwirfoddoli yn effeithio ar eich budd-daliadau a bod y ffurflenni perthnasol yn cael eu cwblhau.

Os cewch Lwfans Ceisio Gwaith/Credyd Cynhwysol, parhewch i fod wrthi'n chwilio am waith a pharhau i fod ar gael am gyfleoedd swyddi.

Os ydych yn hawlio Budd-dal Analluogrwydd/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ni ddylai gwirfoddoli sbarduno 'asesiad anarferol'.

## **Cyfleoedd Gwirfoddoli**

### **Gwirfoddoli Cymru – Cyfleoedd Gwirfoddoli**

[www.volunteering-wales.net](http://www.volunteering-wales.net)

Ewch i gronfa ddata cyfleoedd wefan ar gyfer Cymru, lle gallwch chwilio am gyfleoedd yn eich ardal chi. Gallwch gofrestru ar y safle i dderbyn diweddariadau ar gyfleoedd sy'n cyfateb â'ch diddordebau a'ch anghenion penodol.

Cysylltwch â'ch Canolfan Gwirfoddoli leol am gyngor ac arweiniad un-i-un ynglŷn â gwirfoddoli.

Dyma hwy:

#### **Abertawe – Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS)** (Abertawe)

[www.scvs.org.uk](http://www.scvs.org.uk) 01792 544000  
[scvs@scvs.org.uk](mailto:scvs@scvs.org.uk) Twitter @VolSwansea

#### **Blaenau Gwent/Caerffili/Sir Fynwy/Casnewydd - Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)** (Casnewydd)

[www.gavowales.org.uk](http://www.gavowales.org.uk) 01633 241550  
[info@gavowales.org.uk](mailto:info@gavowales.org.uk) Twitter @GAVOHQ

#### **Bro Morgannwg – Gwasanaethau Gwirfoddoli Morgannwg GVS** (Y Barri)

[www.vvb.org.uk](http://www.vvb.org.uk) 01446 741706  
volunteering@gvs.wales Twitter @GVolServices

#### **Caerdydd – Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (Caerdydd)**

[www.c3sc.org.uk](http://www.c3sc.org.uk) 02920 485722  
[enquiries@c3sc.org.uk](mailto:enquiries@c3sc.org.uk) Twitter @C3SC

#### **Castell-nedd Port Talbot – Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol NPTCVS)** (Castell-nedd)

[www.nptcv.s.wales](http://www.nptcv.s.wales) 01639 631246  
[info@nptcv.s.wales](mailto:info@nptcv.s.wales) Twitter @NPTCVS

#### **Ceredigion – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)** (Llanbedr Pont Steffan)

[www.cavo.org.uk](http://www.cavo.org.uk) 01570 423232  
[gen@cavo.org.uk](mailto:gen@cavo.org.uk) Twitter @cavoceredigion

#### **Conwy – Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC)** (Bae Colwyn) 9

[www.cvsc.org.uk](http://www.cvsc.org.uk) 01492 534091  
[mail@cvsc.org.uk](mailto:mail@cvsc.org.uk) Twitter @conwyvol

#### **Gwynedd – Mantell Gwynedd** (Caernarfon a Dolgellau)

[www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com) Twitter @MantellGwynedd  
Caernarfon – 01286 672626 ymholiadau@mantellgwynedd.com  
Dolgellau – 01341 422575 dolgellau@mantellgwynedd.com

#### **Merthyr Tudful – Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT)** (Pontmorlais)

[www.vamt.net](http://www.vamt.net) 01685 353900  
[enquiries@vamt.net](mailto:enquiries@vamt.net) Twitter @VAMTtweets

**Pen-y-bont ar Ogwr - Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)** (Pen-y-bont ar Ogwr)

[www.bavo.org.uk](http://www.bavo.org.uk) 01656 810400  
[bavo@bavo.org.uk](mailto:bavo@bavo.org.uk) Twitter: @BAVO\_CVC

**Powys – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)**  
(Llandrindod)

[www.pavo.org.uk](http://www.pavo.org.uk) 01597 822191  
[volunteering@pavo.org.uk](mailto:volunteering@pavo.org.uk) Twitter @PAVOtweets

**Rhondda Cynon Taf – Interlink RCT** (Pontypridd)

[www.interlinkrct.org.uk](http://www.interlinkrct.org.uk) 01443 846200  
[info@interlinkrct.org.uk](mailto:info@interlinkrct.org.uk) Twitter @InterlinkRCT

**Sir Benfro – Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)** (Hwlfordd)

[www.pavs.org.uk](http://www.pavs.org.uk) 01437 769422  
[enquiries@pavs.org.uk](mailto:enquiries@pavs.org.uk) Twitter @Pavs\_dev

**Sir Ddinbych – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC)** (Rhuthun)

[www.dvsc.co.uk](http://www.dvsc.co.uk) 01824 702441  
[office@dvsc.co.uk](mailto:office@dvsc.co.uk) Twitter @DVSC\_Wales

**Sir y Fflint – Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Y Fflint (FLVS)** (Y Wyddgrug)

[www.flvc.org.uk](http://www.flvc.org.uk) 01352 744000  
[info@flvc.org.uk](mailto:info@flvc.org.uk) Twitter @FLVCFlintshire

**Sir Gâr - Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS)**  
(Caerfyrddin)

[www.cavs.org.uk](http://www.cavs.org.uk) 01267 245555  
[admin@cavs.org.uk](mailto:admin@cavs.org.uk) Twitter @CAVSCarms

**Torfaen – Cynghair Gwirfoddol Torfaen (TVA)** (Pont-y-pŵl)

[www.tvawales.org.uk](http://www.tvawales.org.uk) 01495 742420  
[info@tvawales.org.uk](mailto:info@tvawales.org.uk) Twitter @TVATorfaen

**Wrecsam – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)**  
(Wrecsam)

[www.avow.org](http://www.avow.org) 01978 312556  
[vb@avow.org](mailto:vb@avow.org) Twitter @AvowWrexham

**Ynys Môn – Medrwn Môn** (Llangefni)

[www.medrwnmon.org](http://www.medrwnmon.org) 01248 724944  
[post@medrwnmon.org](mailto:post@medrwnmon.org) Twitter @MedrwnMon Twitter

**Nid yw'r dolenni uchod yn cynnwys popeth – mae nifer o elusennau eraill a mudiadau gwirfoddol yng Nghymru.**

**Os ydych yn derbyn budd-daliadau, dylech bob amser siarad â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn dechrau ar unrhyw wirfoddoli.**

**Os ydych yn ansicr ynghylch sut y bydd rheolau gwirfoddoli'r Adran Gwaith a Phensiynau'n effeithio arnoch chi, cysylltwch â'ch Canolfan Gwaith leol i gael cyngor.**

**Os ydych yn ansicr o'r gwahaniaeth rhwng gwirfoddoli a gwaith di-dâl, cysylltwch â'ch Canolfan Byd Gwaith leol am gyngor.**